# CYNLLUNIAU MARCIO TGAU

**HYDREF 2024**

**TGAU**
**CYMRAEG IAITH - UNED 2**
**3000N20-1**

© WJEC CBAC Cyf.

**Ynglŷn â'r cynllun marcio hwn**

Pwrpas y cynllun marcio hwn yw sicrhau bod athrawon, dysgwyr a phartïon eraill â diddordeb yn deall y meini prawf asesu a ddefnyddiwyd i asesu'r asesiad penodol hwn.

Marciwyd yr asesiad hwn yn ôl meini prawf penodol mewn cyfres fyw ac mae'r cynllun marcio hwn yn adlewyrchu hynny. Cafodd y ddogfen ei phenderfynu'n derfynol yn dilyn trafodaeth fanwl mewn cynhadledd arholwyr. Derbyniodd tîm o arholwyr cymwys hyfforddiant penodol ar sut i gymhwyso'r cynllun marcio hwn. Bwriad y gynhadledd oedd sicrhau bod yr holl arholwyr yn dehongli ac yn cymhwyso'r cynllun marcio yn yr un modd. Efallai nad yw'n bosibl, nac yn briodol, i'r cynllun marcio hwn gynnwys pob amrywiad y gall ymgeisydd ei gyflwyno mewn ymateb. Fodd bynnag, yn ystod y gynhadledd arholwyr, derbyniodd arholwyr gyfarwyddyd ar sut i ddefnyddio eu barn broffesiynol i wobrwyo ymatebion amgen oedd yn ddilys. Derbyniwyd cyfarwyddyd hefyd yn y ddogfen hon ac adolygwyd ymatebion enghreifftiol.

Gan nad ydynt wedi gallu manteisio ar gymryd rhan yn y gynhadledd arholwyr, mae'n bosibl bod safbwynt athrawon, dysgwyr a defnyddwyr eraill yn mynd i fod yn wahanol o ran rhai manylion neu ddehongliad. Argymhellir yn gryf felly bod y cynllun marcio hwn yn cael ei ddefnyddio ochr yn ochr ag unrhyw gyfarwyddyd arall a gyhoeddwyd, fel enghreifftiau patrymol neu Ganllawiau i Athrawon. Y cynllun marcio hwn yw'r un terfynol. Ni fydd yn cael ei newid onid yw'n amlwg bod gwall yn y ddogfen. Mae'n adlewyrchu’r meini prawf a ddefnyddiwyd i asesu ymatebion ymgeiswyr yn ystod y gyfres fyw.

© WJEC CBAC Cyf.

**CYNLLUNIAU MARCIO TGAU**

**CYMRAEG IAITH - UNED 2**

**HYDREF 2024**

**Adran A (Darllen): 30 marc**

Mae 5 darn darllen ar y thema 'Arswyd' yn y Deunydd Darllen sydd ar wahân.
Darllenwch **bob** un o'r darnau'n ofalus ac yna atebwch y cwestiynau sy'n dilyn.

**Darn Darllen 1**
**Y Lleian Ddu**

**A1.** Pryd bydd y ffilm i'w gweld? [1]

**Hydref 31**

**A2.** Sut mae'r poster hwn yn eich perswadio chi i fynd i weld y ffilm? Nodwch **ddau** reswm. [2]

- **Priflythrennau – Y Lleian Ddu**
- **Ansoddeiriau – arswydus / dychrynllyd / newydd / Gymraeg**
- **Lluniau – lleian a phlasdy / lleuad / llygaid**
- **Lliwiau – Coch a du**
- **Cwestiwn Rhethregol – Wnei di fentro i Blasdy'r Wern fyth eto?**
- **Ebychnod – Arswydus! / Dychrynllyd!**

**neu unrhyw ddau reswm gwahanol sy'n gwneud synnwyr yng nghyd-destun y poster**

**Marc yr un hyd at 2 farc.**



© WJEC CBAC Cyf.

**Darn Darllen 2**
**Arswyd y Cymry!**

**A3.** Mae pedwar o'r datganiadau isod yn gywir. Mae un ateb cywir wedi'i roi i chi'n barod. Rhowch ✓ yn y blychau gyferbyn â'r **tri** sylw cywir arall. [3]

| | |
|---|---|
| Mae Craig-y-nos yn westy a gafodd ei adeiladu yn y cyfnod Fictoraidd. | ✓ |
| Yn y gêm gyfrifiadurol *Maid of Sker*, chi sy'n chwarae rhan Elisabeth Williams. | |
| Cafodd Adelina Patti ei llofruddio yng Nghraig-y-nos yn 1919. | |
| Er mwyn mynd i wahanol fannau ar y map yn y gêm *Maid of Sker*, rhaid i chi ddatrys posau a chasglu allweddi. | ✓ |
| Mae ysbryd gwyllt Adelina Patti yn dal i godi ofn yng ngwesty Craig-y-nos heddiw. | ✓ |
| Gallwch chi ymweld ag Ynys Sker sydd oddi ar arfordir Cwm Tawe. | |
| Mae'n debygol fod y gêm *Maid of Sker* yn seiliedig ar stori draddodiadol a llyfr gan R. D. Blackmore. | ✓ |

1 marc yr un.
Ticio 4 blwch – tynnu marc o'r cyfanswm
Ticio 5 blwch neu fwy – 0 marc

**Darn Darllen 3**
**Gŵyl Arswyd Abertoir**

**A4.** Nodwch **ddau** beth arall heblaw am ffilmiau sydd ar gael yn yr ŵyl arswyd. [1]

- **cerddoriaeth / canu**
- **theatr / drama**
- **awyrgylch gyfeillgar a chynnes**

**1 marc am lwyddo i gael unrhyw ddau'n gywir.**

**A5.** Sut mae'r awdur yn chwarae ar eiriau yn y dyfyniad isod? [2]

| |
|---|
| Er nad yw'r ffilm **Gwledd** wedi cael ei dangos hyd yma yng Nghymru, mae'r byd ffilmiau rhyngwladol eisoes wedi bod yn gloddesta arni, a chael blas garw. **Gwledd** fydd gyntaf ar y fwydlen ac yn agor yr ŵyl. |

**Gloddesta, blas a bwydlen yn eirfa sy'n ymwneud â bwyd = gwledd**

| | |
|---|---|
| **0 marc** | Dim ateb/ateb amherthnasol |
| **1 marc** | Esboniad cryno a sylfaenol |
| **2 farc** | Dealltwriaeth dda ac esboniad manwl |


© WJEC CBAC Cyf.

**Darn Darllen 2 a 3**
**Arswyd y Cymry!**
**Gŵyl Arswyd Abertoir**

**A6.** **Cyfunwch** wybodaeth o’r ddau ddarn darllen er mwyn esbonio sut mae Cymru’n wlad sy’n apelio at bobl sy’n mwynhau pethau arswydus. [6]

| | |
|---|---|
| **0 marc** | Os na cheir ymdrech i ateb y cwestiwn. |
| **1 marc** | Peth ymdrech i gyfuno gwybodaeth o’r testunau drwy restru’r hyn sy’n apelio yn fras (1-4). |
| **2 farc** | Peth ymdrech i gyfuno gwybodaeth o’r ddau destun drwy restru’r hyn sy’n apelio gyda pheth manylder (5+). |
| **3 marc** | Ymdrech eithaf da i gyfuno gwybodaeth o’r ddau destun drwy restru’r hyn sy’n apelio a dechrau dehongli’r wybodaeth. |
| **4 marc** | Cyfuno gwybodaeth o’r ddau destun yn dda a dehongli’r wybodaeth yn dda. |
| **5 marc** | Cyfuno gwybodaeth o’r ddau destun yn dda iawn a dehongli’r wybodaeth yn dda iawn. |
| **6 marc** | Cyfuno gwybodaeth o’r ddau destun yn aeddfed gan ddehongli’r wybodaeth yn aeddfed a threfnus. |

| | |
|---|---|
| Hanesyddol / Gorffennol yn ysbrydoli | **Craig-y-nos.** Plasty gothig mawr o’r Cyfnod Fictoraidd - ar un adeg yn gartref i’r gantores opera fyd-enwog Adelina Patti (1843-1919) a fu farw yno drwy syrthio i lawr y grisiau.<br><br>**Maid of Sker.** Mae'r gêm wedi'i lleoli yn 1898 yng Ngwesty'r Sker, ar ynys ddychmygol o'r enw Ynys Sker. Cafodd y gêm ei hysbrydoli gan Sker House, tŷ hanesyddol yng Nghymru a wnaed yn enwog gan lyfr o’r un enw gan R.D. Blackmore. |
| Lletygarwch / Ymwelwyr / Digwyddiadau | **Craig-y-nos.** Mae rhai’n dweud bod ysbryd Adelina Patti yno o hyd yn aflonyddu. Mae teithiau ysbrydion yn yn cael eu cynnal yn y gwesty yn gyson. Yn ystod teithiau maen nhw’n chwarae record ohoni’n canu ar ddiwedd ei gyrfa pan nad oedd ei llais ar ei orau. Bryd hynny, bydd eitemau yn cael eu taflu o gwmpas yr ystafelloedd a’u torri.<br><br>**Abertoir.** Gŵyl arswyd yn Aberystwyth sydd wedi tyfu o ran poblogrwydd o fod yn ŵyl 3 diwrnod yn 2006 i fod yn ŵyl 6 diwrnod yn 2023. |
| Oriau Hamdden / Cyfryngau Cyfoes | **Maid of Sker.** Wedi ysbrydoli gêm arswyd gyfrifiadurol ar nifer o blatfformau poblogaidd.<br><br>**Abertoir.** Gŵyl ffilmiau’n bennaf ond yn rhoi llwyfan i *bremiere* Cymreig y ffilm Gwledd eleni. |
| Chwedloniaeth / Cefndir Cymreig | **Maid of Sker.** Cafodd y gêm ei hysbrydoli gan un o straeon llên gwerin Cymru sef "Y Ferch o'r Sgêr".<br><br>**Gwledd.** Wedi’i lleoli yng nghefn gwlad Cymru. |


© WJEC CBAC Cyf.

| | |
|---|---|
| Gŵyl arswyd boblogaidd | **Abertoir.** Eang ei hapêl o ffilmiau, cerddoriaeth a theatr. Cynnal *premiere* Gymreig y ffilm "Gwledd" – ffilm sydd wedi ennill llawer o wobrau. |
| Poblogrwydd Byd-eang | **Maid of Sker.** Gwahanol blatfformau cyfrifiadurol<br><br>**Gwledd.** Ennill gwobrau "o'r Swistir i Dde Corea". "Mae'r *genre* arswyd mor gystadleuol, mae'r bobol sy'n hoffi ffilmiau arswyd yn ofnadwy o feirniadol." |
| Gwneud llawer ar gyllideb fechan | **Abertoir.** Mae trefnwyr yr ŵyl yn deall y *genre* arswyd i'r dim, ac oherwydd hynny maent wedi llwyddo i greu gŵyl hwyliog sydd wedi tyfu'n rhyfeddol mewn amser byr. Gydag awyrgylch gyfeillgar a chynnes, mae Abertoir yn cynnig gŵyl sy'n fforddiadwy, yn gyffrous ac yn wahanol.<br><br>**Gwledd.** Mae hi'n ffilm sydd wedi cael ei gwneud ar gyllideb gymharol fach |

**Neu unrhyw ffeithiau perthansol eraill.**



© WJEC CBAC Cyf.

**Darn Darllen 4**
**Yr Ergyd Olaf**

**A7.** **Tanlinellwch** y gair yn y dyfyniad isod sy'n golygu bod y ddau gymeriad ymhell o bob man. [1]

> "Ca' dy ben a chadw i balu," atebodd y llall – yr un gyda'r gwn, yr un mewn *overalls* du – yn undonog amyneddgar. Gwyliodd y ffigwr tenau'n palu'n drafferthus, ei wallt chwyslyd yn sgleinio yng ngolau'r lleuad lachar yn nhywyllwch y goedwig **anghysbell**.

**A8.** Sut mae'r awdur yn creu tensiwn yn y darn darllen? Cyfeiriwch at dechnegau arddull yn eich ateb. [5]

| | |
|---|---|
| **0 marc** | Heb ymgeisio/ateb amherthnasol. |
| **1 marc** | Gallu cyfeirio'n syml at ambell beth sy'n creu tensiwn gan ddechrau dyfynnu. |
| **2 farc** | Ymdrech eithaf da i drafod ambell dechneg / nodwedd yn y testun gan gynnwys ambell enghraifft a dechrau dadansoddi. |
| **3 marc** | Gallu trafod sawl techneg / nodwedd o'r darn darllen gan ddyfynnu a dadansoddi'n dda. |
| **4 marc** | Gallu trafod amrywiaeth o dechnegau o'r darn darllen gan ddyfynnu a dadansoddi'n dda iawn. |
| **5 marc** | Ateb manwl sy'n trafod y darn darllen yn ddeallus gan ddyfynnu a dadansoddi'n hyderus. |

**Gellir cyfeirio at rai o'r dulliau a ganlyn (gellir derbyn enghreifftiau gwahanol/pellach ac unrhyw nodweddion/dulliau eraill sy'n argyhoeddi)**

| **Dull / Nodwedd / Techneg** | **Enghraifft** |
|---|---|
| Cyfeirio at nodweddion ystyrdebol | Amser, lleoliad, tywyllwch, tawelwch, oerfel, bedd, gwaed |
| Rhestr | Nos. Coedwig. Twll. Dau ffigwr. Llipryn o Gofi. Cawr o Gaerdydd.<br><br>Sbaen, India, Rio, Thailand… |
| Cwestiynau Rhethregol | "Be ti'n ddeud? Gad fi fynd, ia?" |
| Ebychnod | "Sdim angen gwneud hyn!"<br><br>"Wna i ddiflannu!" |
| Ansoddeiriau | Gwyliodd y ffigwr tenau'n palu'n drafferthus, ei wallt chwyslyd yn sgleinio yng ngolau'r lleuad lachar yn nhywyllwch y goedwig anghysbell. |
| Trosiad | … troi'r goedwig yn wers ddaearyddiaeth<br><br>Collodd y Cofi ei siawns olaf o weld y wawr. Paratodd Tubbs y gwn gan hollti'r tawelwch.<br><br>Palodd am hanner awr arall mewn tawelwch pur dan glogyn tywyll y nos a'i phais o niwl rhewllyd. |



© WJEC CBAC Cyf.

| | |
|---|---|
| Idiom | … yn hen law ar fod yn ddienyddiwr proffesiynol erbyn hyn. |
| Brawddegau Byrion | Heb oedi. Heb dosturi. |
| Cyffelybiaeth / Cymhariaeth | Ffrwydrodd penglog y Cofi fel grawnwinen goch rhwng bys a bawd.<br><br>… fel enaid ei gelain, diflannodd y gwres i'r tywyllwch yn ddigon cyflym. |
| Ail-adrodd | "Paid bod fel'na. Paid bod yn fyrbwyll…" |
| Hiwmor Tywyll | Cymerodd becyn o *wet wipes* o'i fag a sychu'r gwaed o'i wyneb a'i ddwylo |
| Cyflythreniad | Adar cysglyd yn codi o'r coed |
| Bygythiadau / iaith sarhaus | Ca' dy ben a chadw i balu |
| Elipsau / Tawnodau | Dwi'n addo …<br><br>Paid bod yn fyrbwyll … |



© WJEC CBAC Cyf.

**Darn Darllen 5**
**Arddegwyr ac Arswyd**

**A9.** Nodwch **ddau** reswm pam mae pobl ifanc yn hoff o wylio ffilmiau arswyd. [2]

- **Profi ofn mewn amgylchedd diogel.**
- **Herio'u hunain er mwyn gweld pa mor bell y gallan nhw fynd.**
- **Y wefr a'r rhuthr o adrenalin yn arwain at emosiynau o ryddhad ar ddiwedd y ffilm wrth chwerthin am eu hofnau a'u hymatebion.**
- **Datblygu gwytnwch a sgiliau ymdopi.**
- **Dihangfa dros dro i bobl ifanc sydd eisiau seibiant oddi wrth straen a phwysau bywyd bob dydd.**
- **Ymgolli yn llawn yn y stori a'i chymeriadau, gan brofi ofn a chyffro fel pe baen nhw'n rhan ohoni eu hunain.**

**Marc yr un hyd at 2 farc**

**A10.** Nodwch a yw'r ffeithiau yma yn wir ai peidio drwy roi ✓ neu x yn y golofn briodol. Mae'r cyntaf wedi'i wneud yn barod. [2]

| | |
|---|---|
| Mae gwylio ffilmiau arswyd yn gallu eich helpu i gysgu. | x |
| Gall gwylio ffilmiau arswyd berswadio unigolyn bod ymddwyn yn dreisgar yn ffordd gywir o ymddwyn. | ✓ |
| Mae gwylio ffilmiau arswyd ar eich pen eich hun yn rhywbeth cymdeithasol i'w wneud. | x |


© WJEC CBAC Cyf.

**A11. Golygu (5 marc)**

i) Darllenwch y frawddeg isod a dewiswch y gair sydd fwyaf addas drwy roi ✓ yn y blwch priodol. [1]

Roedd hi'n hyfryd ________________ dail yr hydref yn crensian dan draed y bore hwnnw.

**clywed** ✓

ii) Ail-ysgrifennwch y frawddeg hon gan droi pob unigol yn lluosog. [2]

**Peidiwch** ag anghofio bwydo'r **moch.**

iii) Dewiswch y gair cywir a'i ysgrifennu yn y bwlch priodol bob tro. [2]

Mae fy **nith** i'n bencampwraig gymnasteg.

Wyt ti'n **adnabod** y dyn wrth y drws?




© WJEC CBAC Cyf.

## ADRAN B: Ysgrifennu (40 marc)

**B1. Prawf-ddarllen**

i) Cysylltwch y berfenw gyda'r arddodiad cywir gan ddefnyddio llinellau taclus. [2]




4 yn gywir = **2 farc**
2-3 yn gywir = **1 marc**
0-1 yn gywir = **0 marc**

ii) Pa un o'r canlynol sy'n gywir? Rhowch ✓ wrth yr ateb cywir. [1]

**llyfrgell** ✓

iii) Mae **dau** wall yn y frawddeg isod. Ysgrifennwch y frawddeg yn gywir gan gywiro'r ddau wall. [2]

Roedd cerdded i **<u>fyny</u>**'r mynydd yn anodd **<u>neithiwr</u>**.



© WJEC CBAC Cyf.

**B2.** Yn y dasg hon byddwch chi'n cael eich asesu ar ansawdd eich sgiliau **ysgrifennu**. Dewiswch **un** o'r canlynol i ysgrifennu amdano.

**Naill ai,**

(a) Ysgrifennwch stori ar y testun "Ofn".

**Neu,**

(b) Rydych chi'n bwriadu trefnu gŵyl neu ddigwyddiad yn eich ardal leol. Lluniwch daflen wybodaeth sy'n esbonio beth fydd yn digwydd yn yr ŵyl / digwyddiad, y paratoadau a sut bydd yr ŵyl / digwyddiad yn cael effaith ar eich ardal.

Bydd 20 marc am gyfathrebu a threfn a 15 marc am ysgrifennu'n gywir. [35]

- Dylech chi geisio ysgrifennu rhwng 350 a 500 o eiriau.
- Os byddwch chi'n defnyddio gwybodaeth o'r testunau bydd angen i chi ddefnyddio eich geiriau eich hun.
- Gallwch chi gynllunio eich gwaith yn y blwch isod cyn dechrau ysgrifennu ar y tudalennau sy'n dilyn.
- Gallwch chi ddefnyddio tudalen ychwanegol sydd yng nghefn y llyfryn os bydd angen


© WJEC CBAC Cyf.

**ADRAN B2 (Ysgrifennu) (35 marc)**

| | ***CYFATHREBU A THREFN***<br>***(YSTYR, PWRPASAU, DARLLENWYR a STRWYTHUR)*** | ***YSGRIFENNU'N GYWIR***<br>***(IAITH, GRAMADEG, SILLAFU AC ATALNODI)*** |
|---|---|---|
| **Band 5** | **17–20 marc**<br>• Ysgrifennu aeddfed a threiddgar<br>• Ysgrifennu effeithiol sy'n cynnal diddordeb y darllenydd trwy gydol y darn<br>• Addasu'r cywair priodol yn hyderus i'r pwrpas/cynulleidfa<br>• Datblygu syniadau yn argyhoeddiadol gyda manylder, gwreiddioldeb a dychymyg<br>• Adeiladwaith sicr a chydlynol; strwythur soffistigedig i'r ysgrifennu | **13-15 marc**<br>• Defnyddio ystod eang o eirfa heriol ac addas yn hyderus i greu effaith neu i gyfleu ystyr benodol gywir<br>• Gafael sicr iawn ar ramadeg<br>• Defnyddio amrywiaeth o frawddegau addas ac effeithiol<br>• Defnydd eang o gystrawennau cywir<br>• Defnydd hyderus a chywir o ystod o atalnodi<br>• Sillafu yn gywir bron yn ddieithriad<br>• Gafael sicr iawn ar dreigladau<br>• Gafael sicr iawn ar ferfau (amser a therfyniadau) ac arddodiaid |
| **Band 4** | **13-16 marc**<br>• Ysgrifennu sy'n dangos yn glir y gallu i ddewis a dethol syniadau perthnasol a phriodol<br>• Ysgrifennu sy'n dangos dealltwriaeth sicr sut i ddal diddordeb y darllenydd<br>• Addasu'r cywair yn briodol a chyson i'r pwrpas/cynulleidfa<br>• Datblygu syniadau gyda manylder sy'n argyhoeddi a cheir peth gwreiddioldeb a dychymyg<br>• Ysgrifennu wedi ei strwythuro'n bwrpasol a'i drefnu'n eglur i roi dilyniant rhwydd a llyfn | **10-12 marc**<br>• Defnyddio ystod eang o eirfa yn gywir<br>• Gafael sicr ar ramadeg<br>• Defnyddio amrywiaeth o frawddegau i greu effeithiau arbennig<br>• Defnyddio ystod dda o gystrawennau'n gywir<br>• Defnydd cywir o ystod o atalnodi<br>• Sillafu sicr<br>• Gafael sicr ar dreigladau<br>• Gafael sicr ar ferfau (amser a therfyniadau) ac arddodiaid |
| **Band 3** | **9-12 marc**<br>• Ysgrifennu cydlynol a diddorol ar y cyfan<br>• Ymwybyddiaeth glir sut i ddal diddordeb y darllenydd<br>• Cywair yn briodol ac yn addas ar y cyfan i'r pwrpas/cynulleidfa<br>• Syniadau sy'n dangos datblygiad a cheir rhai cyffyrddiadau diddorol yn yr ysgrifennu<br>• Gwaith trefnus sy'n rhoi dilyniant a strwythur | **7-9 marc**<br>• Defnyddio ystod dda o eirfa yn eithaf cywir<br>• Gafael gyson ar ramadeg ar y cyfan<br>• Defnyddio amrywiaeth o frawddegau<br>• Defnyddio ystod o gystrawennau'n gywir ar y cyfan<br>• Defnydd cywir ar y cyfan o ystod o atalnodi<br>• Sillafu mwyafrif y geiriau'n gywir<br>• Mwyafrif y treigladau yn gywir<br>• Mwyafrif y berfau (amser a therfyniadau) ac arddodiaid yn gywir |



© WJEC CBAC Cyf.

| | *CYFATHREBU A THREFN (YSTYR, PWRPASAU, DARLLENWYR a STRWYTHUR)* | *YSGRIFENNU'N GYWIR (IAITH, GRAMADEG, SILLAFU AC ATALNODI)* |
|---|---|---|
| **Band 2** | **5-8 marc**<br>• Peth ysgrifennu cydlynol<br>• Peth ymwybyddiaeth o sut i greu effaith i ddal diddordeb y darllenydd<br>• Ymdrech glir i addasu cywair i bwrpas/darllenydd<br>• Datblygu rhai syniadau gydag ambell gyffyrddiad diddorol<br>• Peth trefn ar y gwaith a pheth dilyniant i syniadau | **4-6 marc**<br>• Defnyddio peth ystod o eirfa<br>• Gafael anghyson ar ramadeg<br>• Amrywio brawddegau rywfaint<br>• Peth gafael ar gystrawen<br>• Peth gafael ar ystod o atalnodi<br>• Sillafu yn eithaf cywir<br>• Treigladau yn eithaf cywir<br>• Berfau (amser a therfyniadau) ac arddodiaid yn eithaf cywir |
| **Band 1** | **1-4 marc**<br>• Ysgrifennu cydlynol elfennol<br>• Ymwybyddiaeth gyfyngedig o'r darllenydd<br>• Peth ymdrech i addasu cywair i bwrpas/cynulleidfa<br>• Peth cynnwys perthnasol er yn anghyson<br>• Trefn elfennol a dilyniant syml i syniadau | **1-3 marc**<br>• Ystod gyfyngedig o eirfa<br>• Gafael gyfyngedig ar ramadeg<br>• Defnyddio ystod gyfyngedig o frawddegau<br>• Gafael gyfyngedig ar gystrawen<br>• Peth ymdrech i atalnodi<br>• Sillafu rhai geiriau yn gywir<br>• Gafael gyfyngedig ar dreigladau<br>• Gafael gyfyngedig ar ferfau (amser a therfyniadau) ac arddodiaid |
| | Dim sy'n haeddu ei wobrwyo | |

**Mewn tasgau esbonio, disgwylir i ymgeiswyr resymu ac egluro ar sail deall a chyfuno syniadau / gwybodaeth sydd wedi eu cywain o'r testunau darllen ac o brofiadau personol.**



© WJEC CBAC Cyf.